WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Atodiad i'r Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol: Argymhellion – **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 235A2017-18

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16 4

Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17 6

# Adroddiad cryno

1 Mae'r adroddiad hwn yn atodiad i'r Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a gyflwynwyd i'r Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar 18 Medi 2017.

## Cyflwyniad

2 Cyfrifoldeb yr Awdurdod yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol mewn lle i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion ac i sicrhau bo ei hasedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â'r gofynion perthnasol; a
- sefydlu a chadw golwg priodol ar drefniadau i ddiogelu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

3 Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004) yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- darparu barn archwiliad ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Awdurdod i ddiogelu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o'r cyfrifon.

4 Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol CIPFA/LASAAC yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 22 Medi 2017, cyhoeddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu yn cadarnhau eu bod yn cyflwyno darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion yr Awdurdod a Gronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân. Mae fy adroddiad wedi ei gynnwys yn y Datganiad o Gyfrifon.

5 Cafwyd y materion allweddol a gododd yn archwiliad y cyfrifon eu hadrodd i'r aelodau o'r Awdurdod yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 18 Medi 2017.

## Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

6 Rydym yn nodi'r holl argymhellion sy'n codi o'n gwaith archwilio 2015-16 gyda chrynodeb o'r camau a gymerwyd gan y rheolwyr yn ystod 2016-17. Rydym wedi dilyn y rhain fel rhan o archwiliad 2016-17 ac yn crynhoi ein canfyddiadau.

Arrdangosyn 1: Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2015-16

| Argymhellion | Ymateb y Rheolwyr ac Archwiliad |
|---|---|
| **Nid yw'r gofrestr asedau yn dal digon o wybodaeth ariannol ac anariannol, cyfredol na hanesyddol, i ategu cofnodion cyfrifyddu.**<br>Diwygio'r gofrestr asedau i gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol | **Ymateb y Rheolwyr**<br>Caiff adolygiad o'r gofrestr asedau ei gynnal yn 2016-17 a chaiff y system a ddefnyddir i roi cyfrif am y cofnodion ei hadolygu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod.<br>**Ymateb yr Archwiliad**<br>Cynhaliwyd adolygiad ac mae cofnodion ar wahân wedi'u creu ar gyfer tir ac asedau adeiladu unigol i gryfhau'r cofnodion ategol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi ei wneud yn y gofrestr asedau ei hun ac roedd nifer o gofnodion cyfrifyddu wedi'u debydu'n anghywir gan arwain at addasiadau perthnasol i'r cyfrifon. |
| **Ni chaiff asedau cyfarpar eu cofnodi yn y gofrestr asedau yn ddigon manwl i sicrhau y gellir nodi asedau unigol, neu grwpiau o asedau.**<br>Diwygio'r gofrestr asedau i gynnwys asedau ar lefel unigol neu grŵp, er mwyn sicrhau y gellir eu nodi'n hawdd a sicrhau bod y gofrestr asedau yn gyson â'r cofnodion adrannol. | **Ymateb y Rheolwyr**<br>Caiff adolygiad o'r gofrestr asedau ei gynnal yn 2016-17 a chaiff y system a ddefnyddir i roi cyfrif am y cofnodion ei hadolygu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod.<br>**Ymateb yr Archwiliad**<br>Ni roddwyd sylw i'r argymhelliad hwn gan arwain at waith ychwanegol sylweddol i adnabod asedau unigol a chynnal profion archwilio. |
| **Mae'r broses o roi gwybod i'r adran gyllid am waredu asedau yn annigonol ac o ganlyniad nid yw'r gofrestr asedau ariannol yn cael ei diweddaru'n brydlon.**<br>Gweithredu proses gadarn i roi gwybod am gyllid gwarediadau asedau. | **Ymateb y Rheolwyr**<br>Caiff adolygiad o'r gofrestr asedau ei gynnal yn 2016-17 a chaiff y system a ddefnyddir i roi cyfrif am y cofnodion ei hadolygu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cod. Caiff gweithdrefnau eu hadolygu er mwyn sicrhau bod y gofrestr asedau a'r cofrestri adrannol yn cynnwys yr un wybodaeth.<br>**Ymateb yr Archwiliad**<br>Fe wnaethom adnabod nifer o asedau oedd dal ar y gofrestr asedau, ond nid oeddent yn berchen arnynt ar 31 Mawrth 2017. Felly nid oedd unrhyw newidiadau i'r broses wedi bod yn gwbl effeithiol. |

| Argymhellion | Ymateb y Rheolwyr ac Archwiliad |
|---|---|
| **Ni roddwyd cyfrif am incwm grantiau na'r gwariant cysylltiedig yn y datganiadau ariannol ac ni chawsant eu cynnwys ychwaith mewn adroddiadau cyllidebol a gyflwynwyd i'r Awdurdod Tân.**<br>Sicrhau y rhoddir cyfrif am yr holl incwm a gwariant grantiau yn briodol ac y caiff ei gofnodi | **Ymateb y Rheolwyr**<br>Caiff adran o ran grantiau ei chynnwys yn yr adroddiadau alldro i Aelodau ar gyfer 2016-17.<br>**Ymateb yr Archwiliad**<br>Roedd incwm a gwariant grant wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol. Fodd bynnag, nid oedd y symiau gros wedi'u cysoni â'r trafodion sylfaenol yng nghyfrifon dal yn y Fantolen. O ganlyniad, fe adnabyddwyd wallau sylweddol yn y datganiadau ariannol. |
| **Rhoddwyd cyfrif am drafodion yn ymwneud â 2016-17 ym mlwyddyn ariannol 2015-16 gan arwain at orddatgan gwariant a thanddatgan dyledwyr.**<br>Sicrhau y rhoddir cyfrif am drafodion yn y cyfnod cywir yn unol â'r egwyddor croniadau. | **Ymateb y Rheolwyr**<br>Caiff gweithdrefnau eu hadolygu o ran cronni rhagdaliadau.<br>**Ymateb yr Archwiliad**<br>Ac eithrio incwm a gwariant grant ni wnaethom adnabod unrhyw drafodion eraill a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol anghywir. |

## Argymhellion yn deillio o'n gwaith archwilio ariannol ar gyfer 2016-17

7 Yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol, nodais y byddwn yn cyhoeddi adroddiad arwahân yn manylu ein hargymhellion sydd wedi codi o'n gwaith archwilio ariannol. Nodir yr argymhellion isod gyda'r ymateb y rheolwyr iddynt:

Arddangosyn 2: Mater yn codi 1 - Ni chynhaliwyd adolygiad ansawdd digonol o'r cyfrifon drafft

| Mater yn codi 1 - Ni chynhaliwyd adolygiad ansawdd digonol o'r cyfrifon drafft | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Roedd y cyfrifon drafft yn cynnwys nifer o wallau prima facie ac anghysondebau y dylid bod wedi'u nodi a'u dileu fel rhan o'r broses adolygu ansawdd cyn eu cyflwyno i'w harchwilio. Roedd hefyd yn amlwg o'r anghysondebau hyn bod rhai gwallau sylfaenol yn y cyfrifon. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel. |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod gyflwyno adolygiad ansawdd cadarn o'r cyfrif i'w gyflwyno i ni ei archwilio sydd wedi'i ddogfennu'n glir, wedi'i lofnodi gan Drysorydd yr Awdurdod ac wedi'i rannu gyda ni cyn i ni archwilio'r cyfrifon. |

| Mater yn codi 1 - Ni chynhaliwyd adolygiad ansawdd digonol o'r cyfrifon drafft | |
|---|---|
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau nad yw'r datganiadau ariannol drafft a gyflwynir i'w harchwilio yn cynnwys unrhyw wallau. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Cytuno. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Byddwn yn paratoi cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r mater hwn gan gynnwys gosod allan y dyletswyddau a ddyrannwyd. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2018. |

Arddangosyn 3: Mater yn codi 2 - Mae angen gwella ansawdd papurau gwaith

| Mater yn codi 2 - Mae angen gwella ansawdd papurau gwaith | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Roedd y papurau gwaith a oedd yn ategu'r datganiadau ariannol yn wael ac roedd angen esboniadau helaeth ar eu cyfer. Mae'n hanfodol gwella papurau gwaith er mwyn darparu llwybr archwilio clir a dealladwy rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r datganiadau cyfrifyddu. Mae hefyd yn bwysig sicrhau na chaiff trafodion cyfrifyddu eu dileu yn amhriodol er mwyn sicrhau triniaeth gyfrifyddu briodol. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel. |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod baratoi papurau gwaith o ansawdd digonol sy'n amlwg yn ategu'r datganiadau ariannol ac sy'n hunanesboniadol i unigolyn sy'n meddu ar wybodaeth gyfrifyddu. Dylai'r Awdurdod hefyd sicrhau na chaiff trafodion cyfrifyddu eu dileu'n amhriodol a bod y driniaeth gyfrifyddu yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Llywodraeth Leol. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Darparu papurau gwaith clir a dealladwy er mwyn ategu'r datganiadau ariannol. Bydd hyn yn darparu llwybr archwilio clir i swyddogion ac archwilwyr. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Cytuno. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd staff yn derbyn cyfarwyddyd addas. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2018. |

Arddangosyn 4: Mater yn codi 3 - Mae angen gwella'r cyfathrebu a'r cyswllt rhwng staff cyllid yr Awdurdod a staff cyllid Conwy

| **Mater yn codi 3 - Mae angen gwella'r cyfathrebu a'r cyswllt rhwng staff cyllid yr Awdurdod a staff cyllid Conwy** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | O ganlyniad i gyswllt annigonol rhwng staff cyllid perthnasol, bu'n rhaid gwneud nifer o addasiadau cyfrifyddu oherwydd diffyg gwerthfawrogiad o waith aelodau eraill o staff. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel. |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod sicrhau bod pob aelod perthnasol o staff cyllid yn deall sut mae eu gwaith yn gorgyffwrdd er mwyn sicrhau y cynhelir y cyfrifon blynyddol a'r cofnodion cyfrifyddu sylfaenol yn briodol. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau y caiff y cyfrifon drafft eu paratoi'n briodol a sicrhau y gall yr Awdurdod ymateb i'r her sy'n gysylltiedig â'r amserlen gau gynnar. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Cytuno. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd staff yn derbyn cyfarwyddyd addas. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2018. |

Arddangosyn 5: Mater yn codi 4 - Dadansoddiad annigonol o asedau cyfarpar unigol yn y gofrestr asedau

| **Mater yn codi 4 - Dadansoddiad annigonol o asedau cyfarpar unigol yn y gofrestr asedau** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Ni chaiff asedau cyfarpar eu cofnodi ar y gofrestr asedau yn ddigon manwl i sicrhau y gellir nodi asedau unigol, neu grwpiau o asedau. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel. |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod ddiwygio ei gofrestr asedau i gynnwys asedau ar lefel unigol neu grŵp, er mwyn sicrhau y gellir eu nodi'n hawdd ac er mwyn sicrhau bod y gofrestr asedau yn gyson â'r cofnodion adrannol. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod y gofrestr asedau, ac felly'r datganiadau ariannol, yn adlewyrchu'r asedau a ddelir gan yr Awdurdod yn gywir. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Cytuno. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd cynllun gwaith yn cael ei baratoi i fynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd angen i'r cynllun gydnabod y bydd y gwaith yn cael ei wneud o fewn adnoddau presennol. |

| Mater yn codi 4 - Dadansoddiad annigonol o asedau cyfarpar unigol yn y gofrestr asedau | |
|---|---|
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2018. |

Arddangosyn 6: Mater yn codi 5 - Ni ddosbarthwyd asedau TG yn gywir rhwng asedau diriaethol ac asedau anniriaethol

| Mater yn codi 5 - Ni ddosbarthwyd asedau TG yn gywir rhwng asedau diriaethol ac asedau anniriaethol | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Er gwaethaf y ffaith bod llawer o asedau TG yn anniriaethol ee trwyddedau meddalwedd, dosbarthwyd yr holl asedau TG yn anghywir fel asedau diriaethol |
| **Blaenoriaeth** | Uchel. |
| **Argymhelliad** | Ar y cyd ag argymhelliad 4, dylai'r Awdurdod adolygu ei holl asedau TG er mwyn sicrhau y cânt eu dosbarthu'n gywir fel naill ai asedau diriaethol neu asedau anniriaethol. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau y caiff dosbarthiad asedau ei ddatgelu'n gywir yn y datganiadau ariannol |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Cytuno. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd cynllun gwaith yn cael ei baratoi i fynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd angen i'r cynllun gydnabod y bydd y gwaith yn cael ei wneud o fewn adnoddau presennol. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2018. |

Arddangosyn 7: Mater yn codi 6 - Diffyg proses gadarn i sicrhau y rhoddir cyfrif am waredu asedau yn y gofrestr asedau

| Mater yn codi 6 - Diffyg proses gadarn i sicrhau y rhoddir cyfrif am waredu asedau yn y gofrestr asedau | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Mae'r broses o roi gwybod i'r adran gyllid am waredu asedau yn annigonol ac o ganlyniad nid yw'r gofrestr asedau ariannol yn cael ei diweddaru'n brydlon. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel. |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod roi proses gadarn ar waith er mwyn sicrhau ei bod yn ofynnol i bob aelod o staff roi gwybod yn brydlon i'r adran gyllid am unrhyw asedau a gaiff eu gwaredu. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod y gofrestr asedau, ac felly'r datganiadau ariannol, yn adlewyrchu'r asedau a ddelir gan yr Awdurdod yn gywir. |

| Mater yn codi 6 - Diffyg proses gadarn i sicrhau y rhoddir cyfrif am waredu asedau yn y gofrestr asedau | |
|---|---|
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Cytuno. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd cynllun gwaith yn cael ei baratoi i fynd i’r afael â’r mater hwn. Bydd angen i’r cynllun gydnabod y bydd y gwaith yn cael ei wneud o fewn adnoddau presennol. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2018. |

Arddangosyn 8: Mater yn codi 7 - Ni roddir cyfrif am incwm grant na'r gwariant cysylltiedig yn gywir yn y datganiadau ariannol

| Mater yn codi 7 - Ni roddir cyfrif am incwm grant na'r gwariant cysylltiedig yn gywir yn y datganiadau ariannol | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Caiff incwm grant a'i wariant eu rheoli'n amhriodol mewn cyfrif dal ar y fantolen yn hytrach nag mewn codau refeniw penodedig. Yn ogystal, nid yw'r trafodion ariannol yn y cyfriflyfr yn cael eu cysoni â'r hawliadau a wneir er mwyn sicrhau y caiff incwm a gwariant perthnasol eu cofnodi. O ganlyniad, roedd gwallau perthnasol yn y cyfrifon drafft a oedd yn ymwneud ag incwm grant a'i wariant. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel. |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod roi codau refeniw priodol ar waith er mwyn rhoi cyfrif priodol am incwm grant a'i wariant ac er mwyn sicrhau y caiff y trafodion ariannol eu cysoni'n briodol â hawliadau grant. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cofnodi gweithgareddau grant sy'n berthnasol i'r flwyddyn ariannol yn briodol a sicrhau hefyd y caiff cyllid ei reoli'n briodol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Derbyn yn rhannol. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Derbynnir egwyddor cysoni, ond bydd angen i’r cynllun gweithredu sy’n gysylltiedig â hyn gydnabod nad yw’r staff sy’n rheoli mentrau grant, yn gyffredinol, yn staff cyllid. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2018. |

Arddangosyn 9: Mater yn codi 8 - Nid adlewyrchwyd trafodion cyfrifyddu ISA19 yn y cyfriflyfr ariannol

| **Mater yn codi 8 - Nid adlewyrchwyd trafodion cyfrifyddu ISA19 yn y cyfriflyfr ariannol** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Ni chofnodwyd trafodion i roi cyfrif am IAS19 yn y cyfriflyfr ariannol. O ganlyniad, nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â chofnodion ariannol sylfaenol yr Awdurdod, sy'n amhriodol. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel. |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod sicrhau y rhoddir cyfrif am drafodion IAS19 yn y cyfriflyfr ariannol. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod y datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion cyfrifyddu sylfaenol. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Cytuno. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd staff yn derbyn cyfarwyddyd addas. |
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2018. |

Arddangosyn 10: Mater yn codi 9 - Mae angen cynllunio ar gyfer yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon a gyflwynir yn 2018-19

| **Mater yn codi 9 - Mae angen cynllunio ar gyfer yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon a gyflwynir yn 2018-19** | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Yn seiliedig ar arferion gwaith cyfredol a'r diffyg perchenogaeth gyfun mewn perthynas â'r broses baratoi, archwilio a chyhoeddi, mae risg amlwg ar hyn o bryd y bydd yr Awdurdod yn methu â bodloni'r amserlenni diwygiedig ar gyfer 2018-19. Ar gyfer 2018-19 bydd yn rhaid i'r Awdurdod gyflwyno ei gyfrifon drafft atom erbyn 31 Mai 2019, gyda gofyniad am yr ardystiad archwilio erbyn 31 Gorffennaf 2019. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel. |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod ddatblygu cynllun prosiect cynhwysfawr i nodi tasgau a rhyngddibyniaethau allweddol y broses o baratoi ac archwilio'r cyfrifon, ac i nodi'r gwelliannau sydd eu hangen er mwyn bodloni'r amserlen gynharach. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod yr Awdurdod yn bodloni'r terfynau amser diwygiedig o 2018-19 ymlaen. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Cytuno. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd hyn yn ganlyniad y cynllun gwaith a grybwyllwyd eisoes uchod. |

| Mater yn codi 9 - Mae angen cynllunio ar gyfer yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer paratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon a gyflwynir yn 2018-19 | |
|---|---|
| **Dyddiad gweithredu** | Mawrth 2018. |

Arddangosyn 11: Mater yn codi 10 - Mae gweithredoedd eiddo tir ac adeiladau'r Awdurdod yn aml yn enw'r cyrff rhagflaenol ac nid ydynt wedi'u cofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir

| Mater yn codi 10 - Mae gweithredoedd eiddo tir ac adeiladau'r Awdurdod yn aml yn enw'r cyrff rhagflaenol ac nid ydynt wedi'u cofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Mae'r gweithredoedd eiddo yn enw'r cyrff rhagflaenol yn bennaf ac nid ydynt wedi'u cofrestru gyda'r Gofrestrfa Tir. |
| **Blaenoriaeth** | Canolig. |
| **Argymhelliad** | Dylai'r Awdurdod gofrestru ei berchenogaeth dros yr holl dir ac adeiladau perthnasol gyda'r Gofrestrfa Tir. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Sicrhau bod cofnodion perchenogaeth yn gywir. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Cytuno. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd prosiect yn cael ei roi ar waith. |
| **Dyddiad gweithredu** | Cyn gynted â phosib. |

Arddangosyn 12: Mater yn codi 11 – Mae ffurflenni datgan budd yn tybio bod gan yr unigolyn ymwybyddiaeth o’r Awdurdod, os nad yw hyn ganddynt mae risg bod datgeliadau heb eu gwneud

| Mater yn codi 11 – Mae ffurflenni datgan budd yn tybio bod gan yr unigolyn ymwybyddiaeth o’r Awdurdod, os nad yw hyn ganddynt mae risg bod datgeliadau heb eu gwneud | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Mae ffurflenni datgan budd yn gofyn am ymwybyddiaeth o drafodion yr Awdurdod yn hytrach na buddiannau perthnasol. |
| **Blaenoriaeth** | Uchel. |
| **Argymhelliad** | Dylai’r Awdurdod adolygu ei geisiadau am ffurflenni datgan budd er mwyn gofyn i unigolion ddatgan buddiannau perthnasol. |
| **Buddiannau gweithredu'r argymhelliad** | Er mwyn sicrhau bod ffurflenni datgan budd yn cael eu cwblhau. |
| **Derbyniwyd yn llawn gan y rheolwyr** | Cytuno. |
| **Ymateb y rheolwyr** | Bydd y newid yn cael ei weithredu. |

| Mater yn codi 11 – Mae ffurflenni datgan budd yn tybio bod gan yr unigolyn ymwybyddiaeth o'r Awdurdod, os nad yw hyn ganddynt mae risg bod datgeliadau heb eu gwneud | |
|---|---|
| **Dyddiad gweithredu** | Rhagfyr 2017. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru